# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 06.08.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.Tudor Owen (Cadeirydd); J.R.Jones; Gwilym Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:** Rhingyll Bill Coppack; Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Yates:** Barry Clarke; Stuart Draper; Andrew Jones; Rob Westwood-Payne (Cyfreithiwr)

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Dewi Llewelyn

## 1. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED EIDDO TAFARN YATES, GLANRAFON, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded tafarn Yates, Glanrafon, Bangor, ar sail nifer o ddigwyddiadau troseddol y galwyd yr heddlu iddynt dros gyfnod o dair blynedd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr Ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Ar ran yr heddlu, cyflwynodd y Rhingyll Bill Coppack adroddiad yn manylu ar y digwyddiadau y cyfeiriwyd atynt o fewn y cais, gan nodi i'r achosion ddigwydd unai o fewn yr eiddo neu yn union tu allan i'r fynedfa. Cyfeiriwyd at nifer o ddigwyddiadau rhwng 2006 a'r 9fed Ebrill eleni pan fu achos difrifol iawn sydd bellach yn destun achos llys. Nodwyd mai pryder mwyaf yr heddlu yw nid yn unig bod nifer yr achosion o gwmpas yr Yates wedi cynyddu, ond bod eu natur treisgar wedi cynyddu hefyd, ac mai dyna yn bennaf yw'r rheswm dros gyflwyno'r cais i sylw'r Adain Drwyddedu. Cyfeiriwyd yn arbennig at y digwyddiad ar 9 Ebrill eleni pan fu i gwsmer ddioddef anafiadau difrifol o ganlyniad i ymosodiad gan gwsmer Yates, ac fel y bu bron iddo golli ei fywyd onibai am wybodaeth meddygol y swyddog o'r heddlu oedd y cyntaf i gyrraedd.

Yn dilyn ymweliadau gan swyddogion yr heddlu i'r dafarn i ddarganfod os oes cyswllt rhwng digwyddiadau troseddol â defnydd o gyffuriau, nodwyd presenoldeb cyffuriau yn nhoiledau'r dynion ar sawl achlysur, sydd yn cael ei ystyried fel tystiolaeth o ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon. O ganlyniad, cytunwyd i leoli camera cylch-cyfyng wedi ei gyfeirio at y sinciau

yn y toiled dynion i geisio atal yr arfer. Adroddwyd bod offer ar gael i bob tafarn, sy'n gallu canfod presenoldeb cyffuriau ar gwsmeriaid ac argymhellir gosod amod bod staff diogelwch ar y drws yn defnyddio'r offer hwn. Eglurodd y swyddog bod olion cyffuriau yn bresennol ar mwyafrif y boblogaeth bellach, ond bod lefel yr olion yn uwch o lawer lle mae person wedi delio'n uniongyrchol ag unrhyw gyffur.

Adroddwyd ar gyfarfod a fu rhwng Goruchwyliwr Dynodedig Yates a'r heddlu i drafod y sefyllfa, lle cytunwyd ar rhai amodau ychwanegol i drwydded Yates er mwyn ceisio rheoli gwell. Ar gyfer yr adolygiad cynigiodd yr heddlu dri opsiwn o amodau i'w hystyried a thrafodwyd rhain gyda chyfreithiwr y cwmni cyn dechrau'r cyfarfod i geisio dod i gytundeb.

Cyfeiriodd y rhingyll at bryder yr heddlu'n gyffredinol bod achosion treisgar yn digwydd yn aml yn gysylltiedig ag yfed alcohol, yn enwedig lle ceir hyrwyddiad (Promotion) i brynu yn rhad, megis peint-am-bunt a 'Happy Hour', a nododd bod ymgyrch drwy'r Sir dan ystyriaeth gan yr heddlu i annog tafarndai i beidio gweini diod mewn gwydr ar adegau prysur. Pryder arall yn achos Yates oedd darganfod nad oedd y camerau cylch-cyfyng oddi mewn yr adeilad yn gweithio pan oedd yr heddlu am gael tystiolaeth o ymosodiad difrifol arall a ddigwyddodd yn y dafarn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau cyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- Gellir credu mai cyfuniad o or-yfed, diffyg rheolaeth a defnydd o gyffuriau sydd yn gyfrifol am y digwyddiadau troseddol yn hytrach nag unrhyw un rheswm penodol.
- Mae Pubwatch yn argymell gwrthod mynediad i unrhyw berson sydd ag olion cyffuriau arnynt
- Nid yw'r heddlu yn erbyn hyrwyddiadau fel y cyfryw, ond iddynt gael eu rheoli mewn ffordd gyrifol
- Cafwyd dau ddigwyddiad pellach ers mis Ebrill, ond nad oeddynt yn rhai difrifol
- Credir bod yr amodau a argymhellir i gyd yn gwarchod plant rhag niwed

Cafwyd ymateb i'r cais gan gyfreithiwr ar ran y cwmni, gan nodi iddynt gydnabod difrifoldeb y digwyddiadau a'u bod yn awyddus i ddod i gytundeb i geisio gwella rheolaeth y dafarn ac atal troseddau o'r fath yn y dyfodol. Cyfeiriodd at y digwyddiadau a nodwyd yn adroddiad yr heddlu gan fynegi nad oes tystiolaeth gadarn ym mhob achos mai yn Yates y bu'r troseddwyr yn yfed. Daethpwyd i gytundeb ynghylch yr amodau o fewn Opsiwn 3 a gynigwyd gan yr heddlu a chyfeiriwyd at rhai newidiadau megis rhoi mwy o gamerau yn yr eiddo fel bod pob ystafell a rhan o doiledau'r dynion i'w gweld; dim gweini diod mewn gwydr ar ddyddiau penodol o 19.00awr ymlaen tan amser cau; dim poteli agored i'w gwerthu ar y dyddiau a nodir; dim hyrwyddo sy'n arwain i yfed anghyfrifol; staff diogelwch ar ddyletswydd ar y drysau ar adegau penodol. Ychwanegodd bod nifer o'r amodau hyn yn weithredol eisoes.

Gwahoddwyd yr aelodau i holi cynrychiolydd y cwmni a chyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- Gwelir yr hyrwyddo presennol o werthu jygiau o goctel yn rhad yr un mor anghyfrifol a'r cynnig o beint-am-bunt neu Awr Fawr
- Tybed a ddylid ystyried gosod camera yn nhoiledau'r merched rhag gwahaniaethu
- Adroddodd aelod iddo weld pedair merch yn cario poteli gwydr o ddiod allan o'r dafarn rhyw fis yn ol, er i'r rheolwyr sicrhau'r Is-bwyllgor nad oedd hyn yn bosibl
- Mae'r mater o ymdrin â'r broblem cyffuriau yn un i'w drafod ar lefel dinas gyfan yn hytrach na mewn cysylltiad ag un eiddo arbennig
- Mae staff y dafarn yn ffyddiog y byddai'r amodau newydd yn fodd i redeg y dafarn yn fwy effeithiol ac yn help i osgoi'r trafferthion fu yn y gorffennol

Gadawodd yr ymgeiswyr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelod lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn

- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus

wedi pwyso a mesur yr holl dystiolaeth a thrafod yr achos yn helaeth cytunwyd i roi cyfle i'r rheolwyr ddangos gwelliant dan yr amodau diwygiedig, gan nodi y byddai unrhyw dystiolaeth o ddigwyddiadau cyffelyb yn y dyfodol yn arwain at y posibilrwydd o ystyried atal y drwydded.

**PENDERFYNWYD addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol:**

1. **Bydd Deilydd y Drwydded Eiddo yn sicrhau na fydd staff yr Eiddo Trwyddedig yn gweithredu (nag yn trefnu neu gymryd rhan mewn) unrhyw hyrwyddiad na gweithgaredd ar yr eiddo i hyrwyddo cyflenwi, gwerthu nac yfed alcohol fyddai'n annog yfed alcohol yn anghyfrifol, gan gynnwys darparu cyflenwad di-ben-draw neu amhenodol o alcohol am bris penodol neu isel sy'n ymwneud â chynnig alcohol yn unig, neu gynnig mynediad ac yfed am bris penodol, na gwerthu neu gyflenwi alcohol dan amodau fyddai'n annog neu wobrwyo prynu ac yfed alcohol mewn unrhyw un cyfnod o 24 awr trwy gynnig gwobr neu alcohol am ddim heblaw mewn cyswllt â phrynu bwyd wrth y bwrdd.**

2. **Bydd yr eiddo'n ymaelodi ag unrhyw gynllun Gwarchod Tafarndai lleol**

3. **Bydd y polisi 'herio 21' yn cael ei sefydlu a'i roi ar waith gan yr holl staff sy'n cael eu cyflogi yn yr eiddo**

4. **Bydd y Deilydd y Drwydded Eiddo yn sicrhau na fydd diodydd yn cael eu gweini mewn cynhwysyddion gwydr o 19.00awr hyd at amser cau bob nos a thrwy'r dydd ar ddiwrnodau lle hyrwyddir dangosiad digwyddiad chwaraeon, ar achlysuron arbennig eraill (e.e. Nadolig, Calan Gaeaf) a hyrwyddir yn benodol, ac ar Suliau Gŵyl y Banc.**

5. **Bydd y Deilydd y Drwydded Eiddo yn sicrhau na fydd poteli gwydr wedi eu hagor yn cael eu pasio dros y bar i aelodau o'r cyhoedd o 19.00awr hyd at amser cau bob nos a thrwy'r dydd ar ddiwrnodau lle hyrwyddir dangosiad o ddigwyddiad chwaraeon, ar achlysuron arbennig eraill a hyrwyddir yn benodol (e.e. Nadolig, Calan Gaeaf), ac ar Suliau Gŵyl y Banc.**

6. **Bydd unrhyw unigolyn sy'n arfer gweithgaredd diogelwch (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2(1) o atodlen 2 o Ddeddf Diogelwch Preifat 2001) wedi cael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Bydd unigolyn o'r fath yn cael ei gyflogi yn yr eiddo o 20.00awr ymlaen hyd at amser cau bob nos Wener a nos Sadwrn, a hefyd drwy'r dydd ar ddiwrnodau lle hyrwyddir dangosiad o ddigwyddiad chwaraeon, ar achlysuron arbennig eraill a hyrwyddir yn benodol (e.e. Nadolig, Calan Gaeaf), ac ar Suliau Gŵyl y Banc.**

7. **Teledu cylch-cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa, a chynnwys ardal sinciau yn nhoiledau'r dynion. Dylid cadw recordiadau TCC am 30 diwrnod a'u rhoi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fydd yn bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Bangor) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**

Roedd yr Is-bwyllgor hefyd am i ddeilydd y drwydded ystyried y sefyllfa o ran teledu cylch

cyfyng yn y toiledau ac a ddylid ymestyn y trefniant i doiledau'r merched. Byddai hyn er mwyn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yr un fath ac oherwydd y gallai fod cyffuriau yn cael eu cymryd yn nhoiledau'r merched. Ar y llaw arall gellid ystyried eu tynnu o'r toiledau yn gyfan gwbl.

Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn awyddus i bwysleisio ei fod yn gofidio am y sefyllfa ac yn gobeithio y byddai'r amodau yn gweithio. Pe bai unrhyw ddigwyddiadau cyffelyb yn dod ger ei fron yn y dyfodol byddai'n cael ei ystyried yn fater difrifol iawn ac y byddai'n ystyried pob opsiwn posib gan gynnwys diddymu neu atal y drwydded.

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-Bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'r hawl i apelio yn erbyn y dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.30pm